Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Pwyllgor Busnes

Mehefin 2019

Adroddiad ar Gynnig i Ddiwygio'r Rheolau Sefydlog: Rheol Sefydlog 1.3 – Grwpiau Gwleidyddol

---

## Diben

1. Yn unol â Rheol Sefydlog 11.7(iv), mae'r Pwyllgor Busnes yn gyfrifol am wneud argymhellion ar arferion a gweithdrefnau cyffredinol y Cynulliad, gan gynnwys unrhyw gynigion ar gyfer ail-wneud y Rheolau Sefydlog neu eu diwygio. Yn unol â Rheol Sefydlog 33.2, rhaid i gynnig ar gyfer ail-wneud neu ddiwygio'r Rheolau Sefydlog gael ei gyflwyno a'i gynnig mewn Cyfarfod Llawn gan y Pwyllgor Busnes.

2. Mae Rheol Sefydlog 33.1 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor Busnes, o fewn amser rhesymol, ystyried ac adrodd ar unrhyw gynnig a wnaed iddo gan o leiaf chwe Aelod i ail-wneud neu ddiwygio Rheolau Sefydlog.

## Cefndir

3. Ar 21 Mai 2019, trafododd y Pwyllgor Busnes lythyr dyddiedig 20 Mai 2019 a gyflwynwyd gan Mick Antoniw AC ar ran ei hun a saith Aelod arall (Atodiad A).

4. Gofynnodd yr Aelodau i'r Pwyllgor Busnes gyflwyno diwygiad i Reol Sefydlog 1.3 ar Grwpiau Gwleidyddol, fel na fyddai Aelodau a etholir drwy'r rhestr ranbarthol ond yn gallu bod yn aelod ffurfiol o grŵp yn enw'r blaid wleidyddol a'u penododd i'w rhestr. Roedd y llythyr yn gofyn i'r Pwyllgor gyflwyno diwygiad o'r fath 'fel mater o frys'.

5. Trafododd y Pwyllgor y llythyr a chafwyd cyngor llafar ar y cyd-destun cyfreithiol a gweithdrefnol yn y cyfarfod ar 21 Mai. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i ddychwelyd at y mater yn eu cyfarfod nesaf, ac i ymgynghori â'u grwpiau yn y cyfamser.

## Casgliadau'r Pwyllgor Busnes

6. Trafododd y Pwyllgor y mater ymhellach, gan gynnwys adolygu cyngor ysgrifenedig, yn ei gyfarfod ar 4 Mehefin. Nododd y Rheolwyr Busnes hefyd eu bod, yn y cyfamser, wedi cael gwybod gan y llofnodwyr nad oeddent yn bwriadu i unrhyw newid fod yn berthnasol i grwpiau sydd eisoes yn bodoli, yng ngoleuni cyhoeddiad y Llywydd y ffurfiwyd grŵp newydd o dan Reol Sefydlog 1.3(i).

7. Daeth y Pwyllgor i'r casgliadau a ganlyn:

- Byddai newid sylfaenol o'r fath i Reolau Sefydlog y Cynulliad yn gofyn am ystyriaeth ofalus, ac ymgynghori priodol, dros gyfnod o amser.

- Gallai newid y rheolau sy'n ymwneud â grwpiau plaid fel y cynigir, a hynny yn ystod tymor Cynulliad, godi materion ynghylch tegwch ac ôl-weithredu, hyd yn oed os na fyddai'n berthnasol i grwpiau presennol.

- Roedd y newid arfaethedig yn gwrthdaro â'r egwyddor allweddol a nodir yn Rheol Sefydlog 1.10(iii) bod gan bob Aelod statws cyfartal, boed yn Aelodau etholaethol neu ranbarthol.

- O ystyried y pryderon sylweddol a godwyd yn ystod y Cynulliad hwn ynghylch hylifedd digynsail aelodaeth o grwpiau, mae'r

Pwyllgor Busnes eisoes wedi ymrwymo i adolygu agweddau ar y Rheolau Sefydlog sy'n ymwneud ag aelodaeth grwpiau gwleidyddol cyn diwedd y Cynulliad hwn, gyda golwg ar gyflwyno unrhyw newidiadau cyn dechrau'r Cynulliad nesaf yn 2021. Bydd y Pwyllgor yn ystyried y materion a godwyd yn y llythyr fel rhan o'r adolygiad hwnnw.

- Mae'r Pwyllgor Busnes yn croesawu penderfyniad y Bwrdd Taliadau ar 23 Mai i ystyried effaith newidiadau plaid ar holl drefniadau cyllido grwpiau gwleidyddol mewn cyfarfod yn y dyfodol. Efallai y bydd y Bwrdd hefyd yn dymuno ystyried y materion a godwyd gan ansefydlogrwydd aelodaeth o grwpiau yn ystod y Cynulliad hwn wrth iddo ystyried ei Benderfyniad ar gyfer y Chweched Cynulliad.

## Atodiad A

Mick Antoniw
Aelod Cynulliad dros Bontypridd
Assembly Member for Pontypridd

Llywydd

20 Mai 2019

Annwyl Elin

Cynigion i ddiwygio Rheolau Sefydlog 1.3

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ran Vikki Howells, Mike Hedges, Huw Irranca Davies, David Rees, John Griffiths, Helen Mary Jones, Leanne Wood, Alun Davies a minnau yn rhinwedd eich swydd fel Cadeirydd y Pwyllgor Busnes

Rydym yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes ddiwygio Adran 1.3 o Reolau Sefydlog Cynulliad Cenedlaethol Cymru fel mater o frys.
Mae'r Rheol Sefydlog ar hyn o bryd yn rhoi cydnabyddiaeth i grwpiau gwleidyddol sy'n cynnwys aelodau etholaethol, annibynnol a rhanbarthol. Mae angen o leiaf dri aelod i ffurfio grŵp. Byddai'r gwelliant y byddem yn gofyn i'r Pwyllgor Busnes ei ystyried yn anelu at sicrhau mai dim ond os oes ganddynt fandad etholiadol y gellir cydnabod grwpiau gwleidyddol a thrwy hynny ddod yn grwpiau swyddogol sydd â hawl i arian cyhoeddus. Ni ellid ond cael mandad o'r fath drwy gymryd rhan mewn etholiad Cynulliad a chael eich ethol neu benodi'n briodol fel Aelod Cynulliad yn rhinwedd sefyll dros Etholaeth yn enw plaid wleidyddol neu fel aelod annibynnol. Ni fyddai aelodau'r Rhestr Ranbarthol ond yn gallu bod yn aelod ffurfiol o grŵp yn enw'r blaid wleidyddol a'u penododd i'w rhestr.

Crëwyd system rhestr ranbarthol Cynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 i sicrhau cydbwysedd gwleidyddol democrataidd, cymesuredd ac atebolrwydd ac i sicrhau llais i bleidiau lleiafrifol ac aelodau annibynnol a etholir yn briodol. Cyflawnwyd hyn trwy greu Cynulliad o 40 o aelodau Etholaeth a etholir yn uniongyrchol ac 20 aelod arall ar restr ranbarthol o enwebeion pleidiau gwleidyddol.

Mae'n un o egwyddorion sylfaenol ein system etholiadol y rhoddir llais i bleidiau gwleidyddol cofrestredig llai eu maint sydd wedi cymryd rhan ac wedi ennill lefel benodol o gefnogaeth wleidyddol ym mlwch pleidleisio etholiadau'r Cynulliad. Cyflawnir hyn drwy'r rhestr ranbarthol. Byddai rhoi cydnabyddiaeth swyddogol i grŵp o aelodau rhestr ranbarthol, a hynny yn enw plaid wleidyddol nad yw wedi sefyll yn etholiadau'r Cynulliad ac felly nad oes ganddo fandad democrataidd, yn tanseilio'r system etholiadol yn ei chamddefnyddio.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
10 Stryd Farchnad
Pontypridd, CF37 2ST
Mick.Antoniw@cynulliad.cymru
www.cynulliad.cymru
01443 406 400

National Assembly for Wales
10 Market Street
Pontypridd, CF37 2ST
Mick.Antoniw@assembly.wales
www.assembly.wales
01443 406 400

Labour Llafur

Bwriedir i'r cynnig hwn fod yn berthnasol i aelodau rhestr ranbarthol yn unig gan nad ydynt yn cael eu hethol yn uniongyrchol ac nid yw eu henwau yn ymddangos ar unrhyw bapur pleidleisio ond maent yn ennill eu mandad democrataidd gan y blaid wleidyddol a'u penododd.

Yn gywir,




Mick Antoniw AC
Aelod Cynulliad Pontypridd